

Ein holl sylw

“...gan gadw ein golwg ar Iesu, awdur a pherffeithydd ffydd.” (adn. 2)

Beth am ddarllen Hebreaid 12:1–11 ac yna myfyrio

Yn y darlleniad heddiw, mae'r awdur, wrth ymdrechu i gymell ei ddarllenwyr i ddal ati o dan bwysau, yn cyflwyno Iesu fel yr esiampl o un sy'n dyfalbarhau drwy ffydd. Mae'r ffordd y dioddefodd Iesu elyniaeth o du'r rhai oedd yn gwrthwynebu cynllun achubol Duw yn rhoi model ar gyfer y Cristnogion gofidus yr ysgrifennwyd y llythyr yma atynt.

Mae'r enghreifftiau o arwyr ffydd yr Hen Destament (gweler Hebreaid 11) yn ein hysgogi yn ein ffydd, ond mae golwg ffres ar Iesu, prif ddehonglwr y ffydd, yn ein hysgogi fwyfwy. Efydy arloeswr y ffydd sy'n ein harwain ymlaen i ddangos y ffordd inni. Ef ydy ein hamddiffynnydd yn y ffydd sy'n mynd o'n blaenau i wynebu'r drwg sydd ar ein llwybr. Mae e'n goddef fel y gallwn ni oddef. Dirmygodd gywilydd y groes fel y gallwn ninnau ddiystyru'r dirmyg o fod yn ddilynwyr iddo. Rydyn ni'n cael ein galw, law yn llaw â darllenwyr gwangalon, y Llythyr at yr Hebreaid, i hoelio ein sylw arno ef yn llwyr. Boed inni ei efelychu ef wrth iddo ganolbwyntio ar lawenydd y dyfodol yng nghroeso a chymeradwyaeth Duw. Ystyriwch ei draed gwaedlyd yn troedio llwybr buddugoliaeth, a chodwch eich calonau.

Dyma bennill o emyn Ieuan Gwynedd sy'n ein hannog i roi ein bryd ar Iesu:

*Er maint yw chwerw boen y byd
mi rof fy mryd ar Iesu,
ac er pob cystudd trwm a loes
mi dreulia' f'oes i'w garu.*

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 25:1–15; Heb. 2:5–18

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut ddylem weddio gweddi'r salmydd fel crediniwr yng Nghrist?
2. Ym mha ffyrdd mae Iesu yn 'dywysog ein hiachawdwriaeth'?

Gweddi

O Dad, helpa fi i wroli, nid yn unig wrth ddarllen llyfrau neu hyd yn oed y darlleniadau dyddiol yma, ond wrth hoelio fy llygaid ar Iesu. Mi dafla i gipolwg ar y pethau eraill sy'n rhoi anogaeth i mi, ond dw i am i'm sylw ganolbwyntio'n llwyr ar Iesu. Amen.